# Swyddog Cyllid – Rhan amser 0.4
# Disgrifiad Person

Mae UCAC yn chwilio am berson brwdfrydig a medrus i ymuno a'n tîm gweithgar. Prif waith y **Swyddog Cyllid** fydd cynllunio, monitro a gweinyddu materion cyllid yr Undeb o ddydd i ddydd.

(Gweler y Disgrifiad Swydd am fanylion llawn)

**Disgwylir i'r ymgeisydd feddu ar y canlynol:**

**1. Addysg / Hyfforddiant / Cymwysterau**

- Addysg i Safon Uwch neu lefel 3 cyfatebol

**2. Sgiliau / Gwybodaeth**

- Sgiliau cyfathrebu da iawn ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg. Sgiliau llafar ac ysgrifenedig da yn Saesneg
- Sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu da iawn. Yn gallu:
  - rheoli ffeiliau electroneg
  - hyderus gyda rhai elfennau o Microsoft Office (Word / Outlook / Excel/ Teams)
  - hyderus i fewnbynnu a newid manylion ar fas data
  - hyderus gyda rhaglenni perthnasol sy'n ymwneud â derbyn a gwneud taliadau, cadw cyfrifon a gwybodaeth gyllidol (ee Zero a Bottomline )*
  - yn gallu cyd-weithio gydag eraill i ddatrys problemau TGCh

* Gellir trefnu hyfforddiant perthnasol lle nad yw ymgeisydd yn hyderus gyda phob un o’r rhaglenni uchod

- Sgiliau rhifedd da iawn

**3. Profiad**

- Profiad o weithio gyda bas data yn fanteisiol
- Profiad o / neu gymhwyster mewn cadw cofnodion ariannol busnes yn hanfodol

**4. Sgiliau personol**

Mae gofynion y swydd yn addas i berson trefnus iawn a hunan-ddisgybledig sydd:

- yn gallu gweithio dan gyfarwyddyd ac ar eich liwt eich hun, blaenoriaethu a rheoli amser
- yn gallu gweithio dan bwysau amser
- yn ofalus a thrylwyr gyda materion ariannol
- â sgiliau rhyngbersonol da iawn; yn gallu cydweithio'n dda iawn gydag eraill ym mhob agwedd o waith yr undeb
- yn gallu meithrin perthynas dda gyda'r Trysorydd ac Archwilwyr UCAC
- yn gallu ymdrin yn effeithiol gyda galwadau ffôn gan aelodau a throsglwyddo negeseuon yn glir
- yn gallu cadw cyfrinachedd

- yn gallu ymateb yn bositif i gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus

**5. Oriau Gwaith**

Mae hyblygrwydd o ran union oriau gwaith, ond disgwylir i'r Swyddog Cyllid weithio 14 awr yr wythnos o fewn oriau gwaith arferol UCAC.

**6. Lleoliad y swydd**

Lleolir y swydd yn y swyddfa yn Aberystwyth ond mae modd gweithio'n hyblyg.

---